

**Cyngor Cymuned Pentir**  
**Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 14eg o Dachwedd 2019**  
**yn Nghanolfan Glasinfryn am 7.00pm**

**Agenda**

Presennol:

Ymddiheuriadau:

Derbyn cofnodion 9fed o Hydref 2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Is-bwyllgor Cyllid - Cofnodion 6ed o Dachwedd (ohirwyd o Hydref 30ain)

Taliad TAW oedd ddim yn ddyledus i ni

Adolygu ag ail-fabwysiad Polisiiau

- Polisi Iaith
- Polisi GDPR aelodau'r cyhoedd
- Polisi GDPR staff ag aelodau

Asesu Risg

Cyng L A James                      Derbyn cofrestr asesu risg

Ceisiadau Cynllunio      Dim mis yma hyd yn hyn

Diweddariad gweinyddiaeth Canolfan Penrhosgarnedd

Diweddariad Datblygiad Ysgol y Faenol

Cefnogaeth i'r addasiadau

Materion y Clerc

- Gohebiaethau  
Cofrestr buddianau i'w chwblhau 2 ne 3 heb gwblhau  
Maesydd Chwarae Cyngor Gwynedd  
Arwyddion Treborth  
Deddf Amgylchedd Cymru – Environment Wales Act  
Cwblhau adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn
- Adroddiad
  - Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd

Materion y Cynghorwyr

Cyng C E Hughes	Blodau Gwyllt – bocsus Blodau
Cyng D Jones-Morris	Llinellau melyn Ffordd Penrhos
Cyng L A James	Sgips Cymunedol
Cyng E Jones	Cysgodfan Bws Nant y Mount
Cyng M Baines	Coed Bryn Pwll
Cyng J Griffiths	Parcio Felin Hen

# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Fercher 9<sup>fed</sup> o Hydref 2019 yn Eglwys Sant Pedr Penrhosgarnedd am 7.00pm

### Presennol:

Y Cyng. C. E Hughes, D Jones-Morris, M Lynch, E. Jones, D W Jones, B Jones, M Baines, a L. A. James E Jones (Clerc )

### Ymddiheuriadau:

Y Cyng, J. Griffiths, T Anwyl-Williams, H Griffiths , a, J Pierce

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Yn ei sylwadau agoriadol mynegodd y Cadeirydd ein cyd-ymdeimlad a'r Cyng D W Jones am ei brofedigaeth diweddar ynghyd ag adferiad buan i'r Cyng B Jones yn dilyn ei anffawd ddechrau;’r mis .

### Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant ar y ffurflen bwrpasol os oes angen.

Cyng D W Jones yn datgan ei fod yn cwblhau ffurflen yn sgil ei fod yn warden yr Eglwys a ninna yn llogi y lleoliad

### Derbyn cofnodion 12fed o Fedi 2019

Derbynwyd cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng M Lynch ag a eilwyd gan y Cyng D W Jones

### Materion yn codi o'r cofnodion

Cyfarfod a'r Heddlu.

Er fod y Clerc wedi cysylltu a'r Heddlu yn sgil digwyddiad Allt Hendrewen/Caerhun nid oedd wedi clywed dim ymhellach er eu gwahodd i fynychu un o'n cyfarfodydd.

Gan nad oedd cyfarfod yn Rhagfyr a cyfarfod Tachwedd fel arfer yn llawn wrth geisio peny'r gyllideb cytunwyd i'r Clerc fynd yn ol a'i gwahodd i gyfarfod Mis Ionawr

Diffibs – Siom oedd cael ar ddeallt nad oedd y Kiosk ar Ffordd Penrhos ar gael i'w fabwysiadu er fod rhybudd ynddo yn datgan ei fod.

### **Cytunwyd i'r Clerc wneud ymholiadau os oes modd prynu kiosg a'i ail osod**

Datblygiad Ysgol y Faenol

Yn sgil y diffyg darparu/datblygu ar safle y Ganolfan 'roedd y Clerc wedi cysylltu a Uwch Reolwr Adeiladau'r Cyngor Sir a chael ar ddeallt na fyddai symud hyd at o leiaf haner tymor ag efallai dechrau'r flwyddyn oherwydd addasiadau ar y Cynlluniau

Cytunwyd gwahodd yr Uwch Reolwr i'n Cyfarfod nesaf neu ein cyfarfod ar amser gwahanol i drafod y newidiadau gan fod hefyd bryder ynglyn a chyflwr to yr adeilad presennol

### **Clerc i drefnu**

Is-bwyllgor Cyllid - Rhanwyd cofnodion IBC 2ail o Hydref 'Roedd y fantolen ariannol yn dangos £54,410.43 yn y cyfrif ond 'roedd £11,234.73 ohonno yn ad-daliad nad oedd yn ddyledus i ni. Nid oedd HMRC wedi datrys dim ar y broblem er gwaetha ymdrechion y Clerc

Gan mae IBC Mis Medi wedi ei ohirio wythnos oedd y IBC cadarnhawyd fod ail elfen y Praesept o £25K wedi ei dderbyn ddechrau Medi

### Nawdd

Er cysylltu a hwy am fantolen ariannol dal i ddisgwyl oeddem am fantolen Marie Currie a Llais Ogwen.

Cadarnhawyd cyfrannu £300.00 i Glwb Peldroed Seintiau Bangor a £200.00 i Grwp Parchu Pentir fel yr argymhellwyd gan yr IBC

## BDO

Yr archwyliad allannol bellach wedi ei chwblhau gyda sylwadau ynglyn a'n Cofrestr Asesu Risg a dyddiad pryd cafodd y fantolen ariannol eu derbyn heb ei gofnodi  
Popeth arall yn dderbynniol.

Ceisiadau Cynllunio Cais C19/0666/25/LL Coed Bryn Pwll Waen Wen o osod . Gosod Cynhwysyddion Stori ar dir amaethyddol – Ymateb erbyn 21/10/19 **Gwrthwynebu**

## Canolfan Penrhosgarnedd

Diweddariad gweinyddiaeth Canolfan Penrhosgarnedd

Y cyn-drysorydd mewn cyswllt a'r Trysorydd presennol gyda'r gobaith o orffen trosglwyddo'r cyfrifoldebau. Un o'r gofalwyr yn rhoi ei waith i fyny

Diweddariad Datblygiad Ysgol y Faenol

Uwch Reolwr Adeiladau Gwynedd i ddod i gyfarfod

## Materion y Clerc

- Gohebiaethau

Cofrestr buddianau i'w chwblhau – 2 neu 3 yn dal heb gwblhau y ffurflen ond y Clerc wedi gwneud drafft o'r gofrestr

Trosglwyddo Arian i Cyfrif Cadw - Wedi trosglwyddo £10K i'r cyfrif Cadw Busnes

Arwyddion Treborth Wedi gorfod cysylltu a Llywodraeth Cymru i drefnu gan mae LI Cym sy'n gyfrifol am y Cefn-ffordd

Taliad TAW oedd ddim yn ddyledus i ni - Er cysylltu a HMRC tydi'r broblem ddim wedi ei datrys a'r arian yn dal yn ein cyfrif. Y person siaradwyd ag o angen siarad ag adran arall ond neb a syniad pam fod yn arian yn cael ei drosglwyddo nag i pwy mae o'n ddyledus

SSL Delwedd Ein gwefan bellach yn ddiogel dan faner SSL

Deddf Amgylchedd Cymru – Enviroment Wales Act – diweddariad o Unllais

Clerc wedi pasio yr e-bost wybodaeth ymlaen ag adroddodd Cyng B Jones iddynt drafod y ddeddf yng ngyfarfod diweddar o Unllais Cymru (Arfon Dwyfor)

'Roedd wedi derbyn engraifft o lyfryn Cyngor Criccieth.

**Awgrymwyd holi Cyngor Gwynedd am arweiniad** gan ein bod o'r farn ein bod eisioes yn cynnal ein llwybrau cyhoeddus – yn cyfrannu tuag at dorri gwair ychwanegol ynghyd a bwriad i ddatblygu llecynau ar gyfer blodau gwylt cynhenid. Holwyd hefyd os oedd bwriad gan Cyngor Gwynedd osod lampau Stryd LED yn ein ardal yn enwedig ffordd Penrhos

- Adroddiad

Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd

Cyng D Jones-Morris am wneud ymholiadau gyda Ysb Gwynedd yn ei gyfarfod misol a hwy Cyng L A James hefyd am wneud ymholiadau yn ei gwaith gyda'r adran Stadau

## Materion y Cynghorwyr

Cyng C E Hughes Blodau Gwylt Fawr dim ymateb wedi dod yn ol er gwneud ymholiadau

Cyng L A James Asesu Risg Wrthi yn cwblhau'r gofrestr gyda'r bwriad o'i chyflwyno i'r cyfarfod nesaf

Cyng M Baines Dwr codi Glasinfryn Mae dwr wyneb yn codi ar ran o'r ffordd sydd wedi cael ei ail-wynebu wrth y Bont yn Glasinfryn ar y llifo i ardd un o'r etholwyr. Cyng Baines a'r Clerc wedi cysylltu a Priffyrdd a Dwr Cymru ynglyn a'r mater ond dim datrusiad

## **Cytunwyd i'r ddau gysylltu eto hefo Cyngor Gwynedd**

Cyng D Jones-Morris Codwyd mater wal Coed y Maes a diffyg ymateb Cyngor Gwynedd

Nodwyd nad oedd biniau halen ychwanegol archebwyd ar gyfer gaeaf 2019 byth wedi eu gosod

## **Clerc i wneud ymholiad a Gwynedd am y ddau fater uchod**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25